Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC40: Cludiant a theithio llesol

**Cynllun i'w archwilio**

**gan y cyhoedd**

**Rhagfyr 2025**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

**1.1 Cyflwyniad**

**1.2 Cyd-destun**

**1.3 Rôl y CDLIN**

**1.4 Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol**

**1.5 Cynlluniau a Strategaethau Lleol**

**1.6 Materion i'r CDLIN fynd i'r afael â nhw**

**1.7 Polisïau a chynigion defnydd tir y CDLIN**

**1.8 Monitro**

**1.9 Casgliadau a Chamau Nesaf**

# 1. Cyflwyniad

1.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrthi'n paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer ei ardal (heb gynnwys y rhan sydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri). Ar ôl ei gwblhau (ei fabwysiadu), bydd y CDLIN yn disodli'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd a bydd penderfyniadau ar ganiatâd cynllunio yn seiliedig yn bennaf ar ei gynnwys.

1.1.2 Dyma un o gyfres o Bapurau Cefndir sy'n cyd-fynd â'r CDLIN. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

1.1.3 Pwrpas y papur cefndir hwn yw nodi sut mae rhaglenni, prosiectau ac uchelgeisiau ynghlwm â chludiant wedi'u hintegreiddio yn ardal y CDLIN. Mae cysylltiad agos rhwng cynllunio defnydd tir a datblygu a chludiant. Gall lleoliad datblygiad gael dylanwad mawr ar y dewis o gludiant o ran sut mae pobl yn mynd ogylch eu bywydau bob dydd.

1.1.4 Mae rhagor o wybodaeth am gludiant ac ynni ym Mhapur Cefndir 64 "Nodyn Technegol Cludiant ac Ynni".

## 1.2 Cyd-destun

1.2.1 Gall y CDLIN enwi lleoliadau cynaliadwy i ddatblygu arnynt a gall hefyd reoli lleoliad, cynllun a dyluniad datblygiadau er mwyn gweithio tuag at gael system gludiant integredig. Gall gwelliannau i'r system gludiant bresennol hwyluso datblygiadau newydd a chreu manteision i breswylwyr, twristiaid a busnesau presennol hefyd. Bydd rhai agweddau allweddol o system gludiant fodern, effeithiol ac integredig yn cynnwys:

- Hygyrchedd at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer pob agwedd ar gymdeithas
- Gwell effeithlonrwydd i fusnesau gan gynnwys symud staff, nwyddau a gwasanaethau
- Ymgymryd â dewisiadau eraill i'r car preifat sy'n iachach ac yn rhatach
- Lleihau allyriadau carbon i gynorthwyo i fynd i'r afael â newid hinsawdd

1.2.2 Yn gwasanaethu'r sir ar hyd arfordir y gogledd mae cefnffordd yr A55 a gwasanaeth trên cenedlaethol, a ffordd yr A470 a rheilffordd Dyffryn Conwy'n rhedeg o'r gogledd i'r de. Draw oddi wrth y prif lwybrau hyn, mae cyferbyniad amlwg yn yr ardaloedd gwledig lle mae hygyrchedd at wasanaethau,

cyfleusterau a chyflogaeth yn broblemus, oherwydd diffyg dewisiadau amgen ymarferol i'r car, o ran cynhwysiad cymdeithasol.

## 1.3 Rôl y CDLlN

1.3.1 Un amcan allweddol yn y CDLlN fydd cynorthwyo i ddarparu a chefnogi system gludiant integredig, gynaliadwy lle mae gwahanol ddulliau teithio h.y. cerdded, beicio, bysiau, trenau a cheir yn plethu ynghyd mewn modd effeithlon a hygyrch. Bydd cyflawni hyn yn unol â'r Hierarchaeth Gludiant yn gofyn am gydbwysedd o gynigion, gan gynnwys cefnogaeth allanol, a pholisïau sy'n ceisio:

- Lleoli'r datblygiadau hynny sy'n creu'r galw mwyaf sylweddol o ran teithio h.y. tai, cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth, yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn dod â gwelliannau angenrheidiol i isadeiledd cludiant a theithio llesol sy'n bod eisoes
- Cyflawni gwelliannau i gludiant cyhoeddus, sy'n cynnwys technoleg ddigidol a datgarboneiddio'r system gludiant
- Dylunio datblygiadau newydd er mwyn hwyluso cerdded a beicio fel dewisiadau amgen i ddefnyddio car preifat a chysylltu ag isadeiledd sy'n bod eisoes
- Diogelu tir i gyflawni cynlluniau cludiant penodol neu wneud gwelliannau
- Sicrhau bod lefelau priodol o le parcio a phwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn datblygiadau newydd
- Diogelu tir ar gyfer canolbwyntiau cyfnewid nwyddau a chludo nwyddau

## 1.4 Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

1.4.1 **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027**
Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 (llyw.cymru)

1.4.2 Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: Adroddiad Terfynol (llyw.cymru)

Mae oedi a gohirio sylweddol wedi bod o ran cynlluniau cludiant ffordd gydag argymhellion am fwy o welliannau teithio llesol cynhwysol ar hyd a lled Cymru.

1.4.3 **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021**

Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU

Mae hon yn nodi uchelgeisiau LlC ar gyfer prosiectau cludiant ar hyd a lled Cymru.

1.4.4 **Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2**
Mae PC64 yn nodi rhagor o wybodaeth, ond mae'r weledigaeth am "system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon" wedi ei seilio ar dair blaenoriaeth:

- Cynllunio ar gyfer gwell cysylltedd ffisegol a digidol, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio gartref a gweithio o bell a mwy o deithio llesol, er mwyn lleihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir bob dydd.
- System gludiant integredig sy'n gweithio i bawb, lle gall pobl a nwyddau symud yn ddidrafferth o ddrws i ddrws drwy wasanaethau ac isadeiledd cludiant hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon. Mae hyn yn golygu buddsoddi'n sylweddol mewn dulliau cynaliadwy, fel bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol, i greu gwasanaethau mae pobl yn dymuno eu defnyddio, yn gallu eu defnyddio ac yn eu defnyddio.
- Annog pobl i newid i gludiant mwy cynaliadwy drwy ei wneud yn fwy deniadol ac yn fwy fforddiadwy drwy ddulliau arloesi sy'n ei gwneud yn haws i bawb ei ddefnyddio.

1.4.5 Mae'r sector cludiant yn cynnwys allyriadau cludiant yng Nghymru ynghyd â chyfran Cymru o allyriadau hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol. Gyda lefel o 6.6 $MtCO_2e$, roedd cludiant yn cyfrif am 17% o allyriadau Cymru yn 2019. Trafnidiaeth yw'r sector gwaethaf ond dau o ran allyrru nwyon tŷ gwydr, yn dilyn y sector cynhyrchu trydan a gwres (y gwaethaf ond un) a'r sector busnes a diwydiant (y gwaethaf).

1.4.6 Er bod cerbydau'n dod yn fwyfwy effeithlon, rydym hefyd yn teithio mwy; felly, ar y cyfan, nid yw allyriadau'r sector wedi newid llawer ers llinell sylfaen 1990, gan ostwng 6% yn unig hyd at 2019. Mewn gwirionedd, roedd ceir a cherbydau ysgafn yn cyfrif am 71% o allyriadau'r sector cludiant yng Nghymru yn 2019.

1.4.7 Yr uchelgais ar gyfer y sector cludiant yw:

- Lleihau allyriadau o gludiant teithwyr 22% erbyn 2025 (o 2019) a 98% erbyn 2050 drwy:
    - leihau'r galw
    - newid dulliau teithio a
    - defnyddio technolegau carbon is.
- Lleihau nifer y milltiroedd mae pob unigolyn yn eu teithio mewn car 10% erbyn 2030.
- Cynyddu cyfran y teithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy (cludiant cyhoeddus a theithio llesol) i 35% erbyn 2025 a 39% erbyn 2030.

1.4.7 **Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040**

Mae 'Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn cyflawni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru i fabwysiadu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o fewn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

1.4.8 Mae'r Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfeiriad a datblygiad Cymru ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio. Cyhoeddwyd y Cynllun Cenedlaethol 2040 ar 24 Chwefror 2021 ac mae hwn yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Mae'r Cynllun Cenedlaethol 2040 yn gam ymlaen o Gynllun Gofodol Cymru ac yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu statudol, sy'n golygu bod ei gynnwys yn ystyriaeth yn y broses gynllunio. Felly, bydd y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn arwyddocaol wrth wneud penderfyniadau cynllunio a bydd yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer cynllunio lleol a rhanbarthol yn y dyfodol.

1.4.9 Mae Polisi Cynllunio Cymru, sy'n darparu polisi cynllunio i Gymru gyfan, wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r Cynllun Cenedlaethol 2040. Prif themâu'r Cynllun yw iechyd, cynaliadwyedd a llewyrch i Gymru, gyda phwyslais ar gefnogi ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio, darparu tai fforddiadwy, ac ymrwymiad i fetros, a chreu lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae enghreifftiau o nodweddion allweddol y Cynllun Cenedlaethol yn cynnwys:

- Polisi tai yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd, gydag awdurdodau lleol yn gosod gofynion tai cyffredinol gyda bwriad o adeiladu 114,000 o gartrefi newydd erbyn 2038 a allai arwain at gynnydd o 4% ym mhoblogaeth Cymru, a chynnydd o 10% yn y targed o siaradwyr Cymraeg a 70% o'r ynni a ddefnyddir i gael ei gynhyrchu drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030.
- Ehangu'r ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol a mabwysiadu dull pedwar rhanbarth (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain).
- Polisi'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob math, gyda chyfeiriad at nifer fach o ardaloedd bras a aseswyd ymlaen llaw lle bydd rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt sylweddol ar y tir mawr.
- Gofyniad i ddynodi Lleiniau Glas yn rhanbarthau De-ddwyrain a Gogledd Cymru, gan roi ystyriaeth i Lain Las arall yn y De-orllewin.

1.4.10 Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nodau lles, amcanion a ffyrdd o weithio, ac yn gwneud y cyfraniad mwyaf posib' tuag atynt, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n gosod y fframwaith defnydd tir er mwyn cefnogi gwaith i gyflawni strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'. Yn ogystal, mae nifer o strategaethau a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru wedi hysbysu a helpu i lunio'r Cynllun Cenedlaethol, yn cynnwys Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Drafnidiaeth, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Polisi Adnoddau Naturiol a chynllun Cymru Carbon Isel. Y bwriad yw y bydd perthynas ddwy ffordd, gydag unrhyw adolygiadau o'r dogfennau hyn yn cymryd y Cynllun Cenedlaethol i ystyriaeth.

1.4.11 Nid yw'r Cynllun Cenedlaethol yn disodli Polisi Cynllunio Cymru (PCC), ond yn hytrach yn ei ategu, ynghyd â'r Nodyn Cyngor Technegol atodol. Bydd y Cynllun Cenedlaethol felly'n effeithio ar ffurf a chyfeiriad polisi cynllunio yn y dyfodol yng Nghymru, yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

Mae'r canlynol yn ymwneud yn benodol â Gogledd Cymru:


- Polisi 23 – Metro Gogledd Cymru.
- Polisi 24 – Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni.

1.4.12 Mae'r targedau (sy'n effeithio ar Gonwy) yn cynnwys:

- Twf cynaliadwy ac adfywio mewn trefi o bwysigrwydd rhanbarthol ar hyd arfordir y gogledd. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn ffocws i dwf strategol i ategu Ardal Dwf Genedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.
- Metro newydd i'r rhanbarth.
- Prosiectau newydd yn ymwneud ag ynni i gefnogi buddiannau economaidd a chynhyrchu ynni carbon isel.

### 1.4.13 **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 2024**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi'i adolygu er mwyn iddo gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae PCC wedi'i rannu'n bedair thema amlwg, sy'n dod â gofynion y Ddeddf i gyd-destun ar gyfer y polisi cynllunio ac yn dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng polisïau cynllunio. Mae Adran 4 yn PCC yn nodi'r weledigaeth honno ynghlwm â chludiant a theithio llesol, yn ogystal â'r hierarchaeth cludiant cynaliadwy isod:




## 1.5 Cynlluniau a Strategaethau Lleol

### 1.5.1 Cynllun Teithio Llesol

Mae'n ofynnol dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 bod y Cyngor yn hyrwyddo ac yn gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol.

Mae'n rhaid i CBSC sicrhau bod cynlluniau ffordd newydd (yn cynnwys cynlluniau gwella ffyrdd a phalmantau) yn rhoi ystyriaeth i anghenion cerddwyr a beicwyr. Mae'n rhaid i CBSC hefyd baratoi mapiau'n dangos llwybrau Teithio Llesol presennol a rhai posib' ar y dyfodol.

Mae'r mapiau hyn ar gael yma ar gyfer llwybrau sy'n bodoli a darpar lwybrau at y dyfodol.

### 1.5.2 Cynllun Ynni Ardal Leol

Mae'r Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) wedi'i fabwysiadu gan CBSC ac mae'n cynnwys dwy ymyrraeth allweddol ynghlwm â chludiant, sef:

1. **Datblygu isadeiledd cyhoeddus i wefru cerbydau trydan**
   Mae angen rhagor o arweiniad gan SPEN a Llywodraeth Cymru neu'r sector preifat ar hyn. Mae gan awdurdodau lleol ymrwymiadau o ran eu fflyd eu hunain ond mae pwyntiau gwefru ychwanegol, hyd yma, wedi'u harwain gan y sector preifat. Mae awdurdodau lleol angen cyngor ynglŷn â sut i gynllunio ar gyfer anghenion a lleoliadau isadeiledd yn y dyfodol.

2. **Lleihau galw cludiant am ynni**
   Mae'n debyg bod hyn i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth yr ALI. Mae angen rhagor o waith i bennu strategaethau rhanbarthol a beth sydd ei angen ar lefel ALI. O bosib', gweithio gyda'r sector preifat, UGC, SPEN a TrC. Mae angen buddsoddi i newid ymddygiad ac anogaeth i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Byddai tanwydd o blanhigion a datgarboneiddio sut rydym yn cael ein nwyddau oll yn cael effaith gadarnhaol.

   - Cyflymu newid dulliau teithio i gludiant cyhoeddus a llesol;
   - Datgarboneiddio cludiant ffyrdd;
   - Datgarboneiddio sut rydym yn cael ein nwyddau; a
   - Dulliau o leihau allyriadau sy'n seiliedig ar leoedd.

## 1.6 Materion i'r CDLIN fynd i'r afael â nhw

### 1.6.1 Teithio Llesol

- Sicrhau bod cyfleoedd addas i gerdded a beicio i ac o ddatblygiadau newydd
- Ymestyn llwybrau beicio a darparu cysylltiadau rhwng cymunedau a llwybrau dros bellter mwy i ardaloedd cyflogaeth neu ganolbwyntiau cludiant cyhoeddus
- Creu isadeiledd cerdded a beicio sy'n ddiogel, deniadol a chyfleus i annog beicio yn rhan o siwrneiau i'r gwaith ac nid at ddibenion hamdden yn unig
- Cydnabod manteision cerdded a beicio i iechyd a lles

### 1.6.2 Bysiau a threnau

- Gwell cysylltiadau i ganolbwyntiau cyflogaeth allweddol
- Annog cyfleusterau parcio a theithio lle bo hynny'n briodol
- Gwell cysylltiadau rhwng bysiau a threnau
- Gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd (Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a Rheilffordd Dyffryn Conwy) ar gyfer teithiau lleol a'r potensial am orsafoedd newydd mewn mannau strategol
- Gwell cyfleusterau sydd wedi'u diogelu o ran canolbwyntiau cydgasglu nwyddau a chludo nwyddau ar drenau

### 1.6.3 Isadeiledd ffyrdd ac isadeiledd arall

- Gwelliannau i'r isadeiledd ffyrdd presennol i fynd i'r afael â mannau lle mae problemau capasiti cyson

- Dylunio a rheoli ffyrdd i leihau cyflymder, gwella diogelwch a lleihau tagfeydd traffig
- Digonolrwydd mannau parcio a ffioedd
- Adolygu cynlluniau gwella ffyrdd cyfredol a phennu unrhyw gynlluniau newydd

### 1.6.4 Ynni a lleihau carbon

Prif flaenoriaethau strategol y CDLIN yw:

- Cyflymu newid dulliau teithio i gludiant cyhoeddus a llesol;
- Datgarboneiddio cludiant ffyrdd;
- Datgarboneiddio sut rydym yn cael ein nwyddau; a
- Dulliau o leihau allyriadau sy'n seiliedig ar leoedd.

## 1.7 Polisïau a chynigion defnydd tir y CDLIN

1.7.1 Y prif flaenoriaethau polisi ar gyfer y CDLIN yw:

- Lleoli defnydd sy'n cynhyrchu traffig mewn ardaloedd sy'n hygyrch gan ddefnyddio amryw ddulliau teithio
- Dylunio datblygiadau er mwyn hwyluso'r defnydd o gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus
- Gweithredu'r safonau parcio uchaf gyda llai o le parcio mewn lleoliadau hygyrch
- Defnyddio rhwymedigaethau cynllunio neu'r Ardreth Seilwaith Cymunedol i wneud gwelliannau i isadeiledd cludiant
- Diogelu tir i alluogi isadeiledd cludiant newydd neu welliannau i isadeiledd sy'n bod eisoes
- Diogelu hen reilffyrdd er mwyn darparu coridor cludiant yn y dyfodol

### 1.7.2 Polisïau CDLIN

| Polisi | Pwrpas |
| --- | --- |

| | |
|---|---|
| STA/1 Cludiant cynaliadwy, hygyrchedd a datgarboneiddio | Sicrhau bod cynigion datblygu'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat, ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn unol â pholisïau STA/6 a STA/7. Dylai cynigion greu lleoedd a strydoedd lle mae traffig a gweithgareddau eraill wedi eu hintegreiddio a lle mae adeiladau, lleoedd a chynhwysiad yn siapio dyluniadau ac yn gweithredu'r hierarchaeth gludiant. |
| STA/2 Isadeiledd a cherbydau allyriadau isel iawn neu heb allyriadau | Sicrhau bod datblygiadau tai mawr neu ddatblygiadau mawr nad ydynt yn rhai preswyl yn cynnal arfarniad o'r anghenion disgwyliedig ar gyfer isadeiledd cerbydau trydan yn y dyfodol i hysbysu cais cynllunio gyda gwybodaeth o'r Strategaeth Ynni. |
| STA/3 Lliniaru effaith teithio | Sicrhau bod datblygiadau'n mynd i'r afael ag, a lliniaru effeithiau negyddol teithio megis allyriadau carbon (yn unol ag EN/6), sŵn, effaith ar amwynder, gan gynnwys cysylltu â llwybr Teithio Llesol, lles ac effeithiau amgylcheddol yn unol â pholisïau NE/7, NE/8 a STA/6. Bydd hyn naill ai ar y safle neu drwy waith oddi ar y safle neu gyfraniadau. |
| STA/4 Llwybrau a chynlluniau cludiant | Sicrhau y cedwir at yr Hierarchaeth Gludiant ac, i gefnogi datblygiadau, fod isadeiledd priodol, cysylltiadau cludiant cyhoeddus a chyfleusterau perthnasol, gwasanaethau digidol a gofynion eraill sy'n ofynnol fel rhan o'r cynnig. |
| STA/5 Canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol | Sicrhau datblygiadau sy'n lleihau teithiau dosbarthu i leihau'r defnydd o danwydd/ynni ac allyriadau drwy annog defnyddio canolfannau cydgasglu/dosbarthu a defnyddio dulliau amgen ar gyfer cam olaf y danfoniadau |

| | |
|---|---|
| | megis beic trydan ar gyfer nwyddau a cherbydau carbon isel iawn bach. |
| STA/6 Teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd | Sicrhau bod datblygiadau’n cymryd cyfleoedd i wella teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd trwy eu hymgorffori o fewn y safle, a/neu wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle. |
| STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus | Sicrhau bod datblygiadau’n hybu ac yn hwyluso’r ddarpariaeth, datgarboneiddio, a hygyrchedd; yn enwedig i ddiwallu anghenion pobl anabl, i wella a chysylltu isadeiledd cludiant cyhoeddus a gwasanaeth digidol. Mae’r CDLIN yn dynodi ac yn diogelu llwybrau, mesurau a chyfleusterau cludiant cyhoeddus priodol. |
| STA/8 Safonau parcio | Sicrhau bod darpariaeth briodol i wasanaethu datblygiadau, yn unol â’r CCA Safonau Parcio diwygiedig a’r canllawiau cenedlaethol, ac ystyried y gofynion ar gyfer beiciau, ceir, cerbydau heb allyriadau ac allyriadau isel iawn, sgwteri trydan, beiciau modur a cherbydau gwasanaeth. Mewn amgylchiadau lle na ellir darparu digon o leoedd parcio ar y safle, neu nad yw’n cael ei ystyried yn briodol, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu cyfraniad ariannol a/neu welliant ar gyfer mesurau cludiant a chyfleusterau amgen lle bo hynny’n briodol. |

## 1.8 Monitro

1.8.1 Mae fframwaith cyflwyno a monitro’r CDLI yn cynnwys dangosyddion a phwyntiau sbardun ar ddarpariaeth mannau hamdden. Bydd y CDLI yn monitro darpariaeth mannau hamdden drwy’r Adroddiad Monitro Blynyddol, yn cynnwys targedau a phwyntiau sbardun i adolygu’r polisïau ar ddarparu a diogelu mannau hamdden. Yn rhan o’r gwaith hwn, yn unol â gofynion TAN16, byddwn yn diweddaru’r asesiad mannau hamdden yn ôl yr angen.

## 1.9 Casgliadau a Chamau Nesaf

1.9.1 Mae’r Papur Cefndir Cludiant yn darparu gwybodaeth ategol i’r CDLIN, yn amlinellu’r materion a’r heriau y bydd angen mynd i’r afael â nhw yn ogystal â dulliau polisi posib’ i gael eu cynnwys yn y cynllun. Mae wedi’i lunio gan ddefnyddio ffynonellau o dystiolaeth a oedd ar gael o astudiaethau cyfredol a rhai’r gorffennol ac mae’n adlewyrchu canllawiau cenedlaethol a sylwadau ar y safleoedd ymgeisiol a ystyriwyd i’w cynnwys yn y CDLIN.

1.9.2 Bydd y Papur Cefndir Cludiant yn cael ei ddiweddaru wrth i broses ddatblygu’r CDLIN fynd yn ei blaen a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar yr elfennau canlynol:

- Ystyriaethau polisi,
- Canllawiau Cynllunio Atodol (safonau parcio, effeithiau cronnol a lliniaru),
- Ymgynghori cyn ymgeisio,
- Cyflwyniadau’n seiliedig ar dystiolaeth,
- Cynllunio teithio/rheoli galw,
- Amodau cynllunio a chytundebau statudol; a
- Symiau gohiriedig.